

Y Rhai sy'n Gofalu

Darlleniad: Mathew 25: 31-46

Moliannwn dy enw, O! Dduw, am dy gariad mawr tuag atom. Cofiw'n am y modd y bu i ti ddod i'n byd yn Iesu Grist, dy Fab, i ddangos i ni dy gariad, a diolchwn fod rhywrai ym mhob oes wedi dilyn ei esiampl ef.

Heddiw cofiw'n yn arbennig am y rhai hynny sy'n gofalu am eraill. Diolchwn i ti amdanynt a'r modd y maent yn datgan dy ogoniant drwy wasanaethu eu cyd-ddynion. Y mae rhai yn gweini ar y cleifion, eraill yn cysuro'r trallodus, eraill yn ymgeleddu'r digartref a'r diwaith, y ffoadur a'r sawl sydd heb gyfaill. Gad iddynt wybod dy fod ti nid yn unig yn cymeradwyo'u gwasanaeth ond yn abl i'w cynorthwyo hefyd.

Diolchwn, O! Dad, am bawb a'th deimlodd di'n agos pan oedd eu gofal yn fawr, am bob un a glywodd dy lef ddistaw fain yng nghanol dwndwr gwaith a gorchwyl. Credwn, Arglwydd, dy fod yn paratoi dy bobl at bob tasg ac yn eu nerthu ar gyfer pob gofyn: credwn nad oes ar y cynorthwywyr angen help, ac y gellir llafurio a gofalu yn ddiorffwys. Yn dy drugaredd symbyla ninnau hefyd, y rhai y mae baich ein gofal yn ysgafn, i gefnogi a chysuro'r rhai sy'n gorfod dyfalbarhau.

Meddyliwn yn arbennig am wŷr a gwragedd sy'n gofalu am aelodau o'u teulu. Maent efallai yn brysur y dydd ac yn effro'r nos, yn methu ymollwng i afael cwsg ac yn methu rhoi eu gofal heibio. O! Dad, fe wyddom y gelli di roi tangnefedd. Addewaist i'th ddisgyblion gynt dy dangnefedd di dy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyt ti yn rhoi i ni. Deisyfwn felly ar i'th ysbryd ein hamddiffyn rhag pob digalondid a'n harbed rhag mynd yn ysglyfaeth i hunandosturi. Cyfeiria ni bob amser i edrych ar Iesu pan yw'r gofyn yn fawr, ac i wrando ar ei eiriau pan yw chwerwder yn agos:

‘Yn wir rwy'n dweud wrthyich, yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y'i gwnaethoch.’

Gweddïwn, Arglwydd, nid yn unig dros y rhai sy'n gofalu o fewn

cylch eu teulu a'u cyfeillion, ond hefyd dros y rhai sydd wrth eu gwaith yn gweini - meddygon a gweinyddesau, cynorthwywyr cartref a gweithwyr cymdeithasol, y rhai sy'n ceisio dwyn cymorth i bobl dlawd y byd a'r rhai sy'n gweithio ymysg ffoaduriaid.

Lle mae'r dasg yn fawr a'r adnoddau'n brin, bydd di yno i'w harbed rhag teimlo fod y gwaith yn ofer. Lle mae rhwystrau'n cynyddu a'u heffeithiolrwydd i bob golwg yn lleihau, cadw hwythau rhag digalondid. A lle maent hefyd yn llwyddo ac yn canfod dioddefaint a gwendid, tristwch ac anobaith yn cilio, cadw hwy rhag balchder. Argyhoedda ni mai eiddot ti yn unig yw'r gallu tragwyddol, mai ti yn unig sydd feistr amser, ac mai ysbeidiol fyddai pob buddugoliaeth fach heb dy fuddugoliaeth fawr dy hun.

Canmolwn dy enw am Iesu Grist, dy Fab, gan gofio nid yn unig iddo ef ofalu a gweini ond iddo hefyd goncro angau a'r bedd. Gad i fywyd newydd yr atgyfodiad fod ynom ym mhob gwaith a gofal, ac i'r Crist byw fod yn ein hymyl beth bynnag a wnawn:

‘Yn anheddau'r tlawd a'r unig
Ar balmentydd oer y dref,
Dangos wnawn dosturi'r Prynwr,
Rhannwn ei drugaredd gref:
Hyn fo'n gweddi wrth ymestyn
At bob llwyth a gwlad sy'n bod:
Gras, i ti, Iachawdwr, Frenin,
Syrthied pawb ar ddeulin clod.’

Yn enw Iesu Grist ein Harglwydd, gan ofyn maddeuant am bob bai.
Amen.

Elwyn Richards